Sant Nicolas: y bedwaredd ganrif

Y ffrind sy'n ymweld dros y Nadolig

Caredigrwydd / gostyngeiddrwydd

"Pwy sy'n dŵad dros y bryn,
Yn ddistaw, ddistaw, bach?"

Ys gwn i pwy sy'n dŵad dros y bryn? Wel, mi ydych yn iawn. Siôn Corn. Dyn caredig iawn ydi Siôn Corn. Mae ganddo anrheg i bawb. Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld Siôn Corn yn y siopau. Mae ganddo wisg goch a barf wen. Fel arfer, bydd yn chwerthin yn braf. Erbyn bore Nadolig bydd wedi gadael anrhegion i bawb. Dyma i chi stori am Sant Nicolas. Roedd ef yn debyg iawn i Siôn Corn.

Roedd teulu tlawd iawn yn byw yn y pentref. Un diwrnod, pan oedd Sant Nicolas yn mynd heibio'r tŷ clywodd sŵn crio. Roedd un o'r genethod bach yn crio.

"Dad," meddai hi, "gawn ni fynd i'r stryd i chwilio am fwyd?"

"Na," meddai'r tad, "mi wnawn ni aros am un noson arall ac fe wna i weddïo ar Dduw. Mi fydd yn siŵr o'n helpu."

Clywodd Sant Nicolas y sgwrs rhwng y tad a'i dair merch. Rhedodd adref. Yn ei gist roedd ganddo dri bag yn llawn o aur.

"Fe roddaf un bag i bob un o'r genethod bach," meddai.

Pan oedd pawb yn cysgu a'r eira yn disgyn aeth Sant Nicolas heibio'r tŷ. Gwelodd dwll yn wal y tŷ. Rhoddodd y bag yn y twll ac aeth adref drwy'r eira.

Pan gododd y tad yn y bore fe welodd fag o aur ar y llawr. "Dyma ni, mae Duw wedi ateb fy ngweddi," meddai yn llawen wrth ei ferched.

Y noson wedyn, digwyddodd yr un peth. Erbyn y bore, roedd bag arall o aur ar lawr yr ystafell. Roedd y tad yn sicr bod Duw wedi ateb ei weddi y tro hwn.

Y drydedd noson, er bod yr eira'n drwchus, cerddodd Sant Nicolas a'i glogyn coch ar hyd y stryd.

Roedd tad y genethod wedi dweud, "Mi rydw i am guddio tu allan i'r tŷ heno i mi gael gweld pwy sydd yn rhoi'r bagiau aur i ni."

Ar ôl iddi dywyllu, clywodd y tad sŵn traed yn dod yn nes ac yn nes at y tŷ. Gwelodd ddyn â chlogyn coch yn cerdded yn gyflym ar hyd y stryd. Rhoddodd y trydydd bag o aur drwy'r twll. Cerddodd yn gyflym ar hyd y stryd yn ôl at ei gartref.

Rhedodd y tad ar ôl Sant Nicolas. Penliniodd o'i flaen a dywedodd, "Pam yr wyt ti'n mynnu cuddio dy hun?"

Atebodd Sant Nicolas, "Dydw i ddim eisiau i neb wybod am hyn. Dyma fy ffordd i o wneud pobl yn hapus, ond," meddai'r Sant, "cofia di ddiolch i Dduw. Duw a'm hanfonodd i'th helpu."

Roedd Sant Nicolas yn barod i helpu pawb, ond doedd o ddim eisiau i neb wybod. Dyma pam mae plant yn hongian hosan bob noswyl Nadolig er mwyn i Sant Nicolas ddod heibio a llenwi'r hosan ag anrhegion. Ond does neb yn gweld Sant Nicolas yn dod. Mae o'n dod ar ôl iddi dywyllu pan fydd pawb yn cysgu.

"... ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur, thus a myrr."

Mathew 2:11

Diolch i Ti, O Dduw,
am anrhegion y Nadolig
ond yn fwy na dim,
diolch i Ti am dy rodd fawr,
Iesu Grist.
Amen.

Pa mor bwysig ydi rhoi a derbyn anrhegion?